Egwyddorion sillafu

Dr Nia Cole Jones

Sillafu

Pa lythrennau sy’n dyblu?





DYMA'R **UNIG** LYTHRENNAU SY'N DYBLU YN Y GYMRAEG

Rheol 1

- ‘nn’ ac ‘rr’ mewn geiriau unsill.

Un rheswm yn unig > osgoi amwysedd:

(gan ddefnyddio geiriadur – darganfyddwch ystyron y geiriau hyn)

yn _____	ynn _____
dyn _____	dynn _____
myr _____	myrr_____

Rheol 2

- Y GOBEN - GWAHANIAETHU

‘n’	‘nn’	‘r’	‘rr’
canu	**cannu**	**tori**	**torri**
cynydd	**cynnydd**	**tyrau**	**tyrrau**
gwanaf	**gwannaf**		
gynau	**gynnau**		
tanau	**tannau**		
tonau	**tonnau**		

Rheol 2

- Y GOBEN – HYD Y LLAFARIAD
- Os yw llafariad gair unsill sy'n gorffen gydag 'n' neu 'r' yn FYR, bydd dwy 'n' neu 'r' yn y goben:

pen → pennau

rhan → rhannau

tor → torri

twr → tyrru

Rheol 3

- Mae **“n”** yn dyblu ar ôl **an**

an + t = annh an + tebyg = a**nnh**ebyg

an + d = ann an + dymunol = a**nn**ymunol

an + n = ann an + naturiol = a**nn**aturiol

OND

- **an + tr =anhr**
- e.e. an + trefn = a**nhr**efn

Rheol 4- *Anti Ann*

- Mae'r **"n"** yn dyblu wrth ychwanegu sillaf at eiriau sy'n gorffen gyda **–nt:**

llwyddiant → llwyddia**nn**au;

peiriant → peiria**nn**au;

diwylliant → diwyllia**nn**ol

dant → dannedd

cant → cannoedd

tant → tannau

methiant → methiannau

punt → punnoedd

Rheol 5

- Mae'r "**n**" yn dyblu os ydym yn ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen gyda **-en** neu **-yn**:

llythyren → llythre**nn**au

llyfryn → llyfry**nn**au

dogfen → dogfe**nn**au

offeryn → offery**nn**au

*Mae **emyn**, **gwenyn** a **telyn** yn eithriadau.

Rheol 6

Nid yw “**n”** yn dyblu mewn geiriau sy’n gorffen gyda **–iwn, -ion** (benthyciadau o’r Saesneg) os ydym yn ychwanegu sillaf:

cwestiwn → cwestiy**n**au → cwestiy**n**u

ffasiwn → ffasiy**n**au → ffasiy**no**l

fersiwn → fersiy**n**au

Rheol 7

Nid yw **“n”** yn dyblu o flaen y terfyniadau

-wyr, -ion, -iad

dila**nn**u	→ dila**n**iad
offery**nn**au	→ offery**n**wyr
gwy**nn**u	→ gwy**n**ion
cwr	→ cy**r**ion
gy**rr**u	→ gyrwyr

Ydy’r geiriau hyn yn gywir?

- anifyr
- anhrefn
- anniddorol
- ysgrifennyddes
- canu

Allwch chi ddweud pam?

Pa eiriau sy'n anghywir?

- anfon
- torrodd
- ysgrifennyddes
- carrio
- emynnau
- ennillodd
- tarran
- byrach
- penderfynu
- prynnu
- anhebygol
- barrug
- gofynodd
- pentyru
- cylchgronau
- gyrru

Beth yw ffurf lluosog y geiriau yma?

Man	Môr	Pennawd
Dant	Gyrrwr	Cwestiwn

Dewiswch y ffurfiau cywir …

1. Mae’r diwydiant yn wynebu nifer o …… (doriadau/dorriadau)

2. Mae’n rhaid i chi …….’r penderfyniad (gwestiynnu/gwestiynu)

3. Mae’r sefyllfa yn …….. (anheg/annheg)

4. Wyt ti wedi dod o hyd i’r ……? (cyfrifiaduron/cyfrifiadurron)

‘i’ neu ‘u’??

‘o’ yng nghanol berfenw = ‘i’ ar y diwedd, e.e. colli, pori

‘a’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. canu, taranu

‘y’ neu ‘w’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. cysgu, chwyrnu

‘w’ yn agos at ddiwedd berfenw = ‘i’ yn ei dilyn, e.e. berwi, drewi

Gyda geiriau tebyg eu sain, mae berfenwau fel arfer yn gorffen gydag **u**, ac enwau lluosog yn gorffen gydag **i**, e.e. rhestru (*to list*), rhestri (lists)

Ymarferion adolygu …

Ymarferion Papur – cywiro paragraffau

Ymarferion ar-lein
http://www.canolfanpeniarth.org/cywirdeb_iaith/

Ymarferion ar-lein
http://sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk/tasgau/index.html